Offeryn Sgrinio Asesiad Effaith

Enw'r polisi neu broses	Diwygio CPD
Pwrpas y polisi neu broses	Diwygio gofynion CPD y GOC
Tîm / Adran	Addysg a CPD
Dyddiad	3 Awst 2026
Sgrinio gan	Steve Brooker
Cymeradwywyd gan	L Milliner
Dyddiad cymeradwyo	17 Medi 2026
Cyfarwyddiadau:	• Lliwiwch neu gylchwch statws presennol y prosiect neu bolisi ar gyfer pob rhes. • **Cofiwch wneud hyn ar gyfer pob rhes**. Os nad yw'n berthnasol – rhowch N/A, ac os na wyddoch – rhowch farc cwestiwn yn y golofn honno. • Mae hwn yn offeryn byw, gallwch ei ddiweddaru wrth i chi gyflawni mwy o weithredu. • Cofiwch sicrhau bod eich dewisiadau'n gywir pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen. • Penderfynwch a gredwch fod angen asesiad effaith **llawn** er mwyn rhestru'r risgiau a'r camau lliniaru / cryfhau. • Os credwch **nad oes** angen asesiad effaith llawn, rhowch eich rhesymau yn y lle gwag o dan bob rhan. • Gallwch gynnwys sylwadau yn y blychau neu yn y gofod isod. • Ar ôl ei llenwi, cyflwynwch y ffurflen i'r Rheolwr Cydymffurfio i'w chymeradwyo.

A) Effeithiau	Risg uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu N/A
1. Arian wrth gefn	Mae'n debyg y byddai angen arian wrth gefn	Mae'n bosib y byddai angen arian wrth gefn		Dim effaith ar arian wrth gefn / heb ddefnyddio	
2. Cyllideb	Dim cyllideb wedi'i dyrannu na'i chytuno, ond bydd angen	Cyllideb heb ei dyrannu ond wedi cytuno i'w throsglwyddo'n fuan	Cyllideb wedi cael ei dyrannu ond gallai fod angen mwy (gan gynnwys yn y dyfodol)	Dim angen cyllideb NEU mae cyllideb wedi'i dyrannu ac mae'n annhebygol y bydd angen mwy	
3. Deddfwriaetj, canllawiau neu reoliadau	Ddim yn siŵr beth yw'r ddeddfwriaeth berthnasol.	Ymwybodol o'r holl ddeddfwriaeth ond heb ei chynnwys yn y prosiect / proses eto	Ymwybodol o'r ddeddfwriaeth, wedi'i chynnwys yn y broses / prosiect, ond ddim yn cydymffurfio eto	Ymwybodol o'r holl ddeddfwriaeth, wedi'i chynnwys yn y broses / prosiect, ac yn cydymffurfio	
4. Newidiadau deddfwriaeth sydd i ddod	Bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei newid yn y 12 mis nesaf	Bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei newid yn y 24 mis nesaf	Gallai deddfwriaeth gael ei newid rhywbryd yn y dyfodol agos	Dim cynlluniau i newid y ddeddfwriaeth	
5. Enw da a'r cyfryngau	Mae'r pwnc hwn yn cael sylw amlwg yn y cyfryngau ar hyn o bryd neu yn y 12 mis diwethaf	Mae'r pwnc hwn yn cael sylw cynyddol yn y cyfryngau yn y 12 mis diwethaf	Nid yw'r pwnc hwn wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau yn y 12 mis diwethaf	Nid yw'r pwnc hwn wedi cael llawer neu ddim sylw yn y cyfryngau yn y 12 mis diwethaf	
6. Adnoddau (pobl a chyfarpar)	Angen adnoddau newydd	Yn debygol o'i gwblhau gyda'r adnoddau presennol neu drwy rannu adnoddau	Yn debygol o'i gwblhau gyda'r adnoddau presennol	Yn gallu ei gwblhau gyda'r adnoddau presennol	
7. Cynaliadwyedd	Mae llai na 5 o bobl yn ymwybodol o'r prosiect / proses ac nid yw'n cael ei gofnodi'n ganolog na'n llawn	Mae llai na 5 o bobl yn ymwybodol o'r prosiect / proses ond mae'n cael ei gofnodi'n ganolog a llawn	Mae mwy na 5 o bobl yn ymwybodol o'r prosiect / proses ond nid yw'n cael ei gofnodi'n ganolog a / neu'n llawn	Mae mwy na 5 o bobl yn ymwybodol o'r prosiect / proses ac mae'n amlwg yn cael ei gofnodi'n ganolog	
	Dim cynlluniau ar gyfer hyfforddiant a / neu ddim dyddiad ar gyfer cwblhau hyfforddiant	Deunydd hyfforddiant heb ei greu ond cynllun a pherchennog hyfforddiant wedi'i adnabod a dyddiadau cwblhau wedi eu penderfynu	Deunydd a chynllun hyfforddiant wedi eu creu, perchennog wedi'i adnabod a dyddiadau cwblhau wedi eu penderfynu	Hyfforddiant wedi'i gwblhau a'i gofnodi gydag Adnoddau Dynol	N/A
	Dim cynllun cyfathrebu yn ei le a dim	Cynllun cyfathrebu allanol yn ei le (gan	Cynllun cyfathrebu mewnol yn ei le (ar gyfer	Cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol yn ei le ac wedi'i	

A) Effeithiau	Risg uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu N/A
8. Cyfathrebu / codi ymwybyddiaeth	perchennog nag amserlen wedi eu hadnabod	gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol) ond heb ei gwblhau, perchennog a dyddiadau cwblhau wedi eu hadnabod	pob lefel ac adran berthnasol) ond heb ei gwblhau, a pherchennog a dyddiadau cwblhau wedi eu hadnabod	gwblhau, a pherchennog a dyddiadau cwblhau wedi eu hadnabod	
	Ddim yn siŵr oes angen cyhoeddi yn Gymraeg	Rhaid ei gyhoeddi yn Gymraeg; Tîm Cyfathrebu'n ymwybodol		Dim angen ei gyhoeddi yn Gymraeg	

Rhowch sylwadau isod ar y sgoriau effaith uchod:
1, 2 a 3: Dim angen cyllid yn ystod cam datblygu polisi'r prosiect, ond gallai fod angen costau TG i weithredu diwygiadau tymor byr (e.e. addasu pwyntiau) ym mlwyddyn ariannol 2027/28 sy'n fwy na'r gyllideb ddatblygu yn y contract ar gyfer y llwyfan MyCPD. Byddai diwygiadau hirdymor fel cael gwared ar y system bwyntiau'n rhoi arbedion i'r GOC a llai o gostau cydymffurfio i gofrestreion. Mae'r ffi flynyddol o £45 i ddarparwyr CPD wedi'i ragnodi yn Rheolau CPD 2021 ond nid yw'n ddigon i dalu am y costau rheoleiddio. Nid yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno diwygiadau hirdymor o fewn rheolaeth y GOC, Llywodraeth y DU sy'n penderfynu hyn. Derbyniwn y gallai ein cynigion achosi canlyniadau economaidd niweidiol i ddarparwyr CPD. Fodd bynnag, ni ddylem gymryd y bydd cofrestreion yn gwneud llai o CPD oherwydd y newidiadau. Ystyriwn y bydd marchnad hyfyw ar gyfer darpariaeth CPD a fyddai'n cynorthwyo cofrestreion i gyflawni'r gofynion diwygiedig yn parhau i fodoli os gweithredir ein cynigion. 3 a 3: Mae Rheolau CPD 2021 yn is-ddeddfwriaeth. Ein rhagdybiaeth weithio yw na fydd y llywodraeth yn blaenoriaethu diwygio Rheolau CPD 2021 dros y senedd bresennol. Mae cynigion wedi eu labelu fel rhai tymor byr yn bosib o fewn Rheolau CPD 2021. 8: Cynllun cyfathrebu wedi'i gefnogi gan ymgysylltu drwy ymgynghori. Cafodd y ddogfen ymgynghori a'r atodiadau eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn ymwneud â fframwaith rheoleiddio CPD fydd yn berthnasol i bob cofrestrai yn y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Mae adborth o'r ymgynghoriad wedi cadarnhau na fydd y cynigion hyn yn cael unrhyw effaith ar y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg nac yn effeithio ar drin yr iaith Gymraeg. Nid oes angen asesiad effaith llawn.

B) Llywodraethu gwybodaeth	Risg uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu N/A
1. Pa ddata a ddefnyddir?	Data personol sensitif	Data personol	Data busnes preifat / caeedig	Data cyfrinachol / busnes agored	
2. Fydd y data'n ddienw?	Na fydd	Weithiau, mewn dogfennau sy'n cael eu rhannu	Bydd, yn syth, a'r gwreiddiol yn cael ei gadw	Bydd, yn syth, a'r gwreiddiol yn cael ei ddileu	
3. A fydd yn bosib adnabod rhywun o'r data?	Bydd	Bydd ond mae eu henw'n gyhoeddus yn barod (SMT / Cyngor)	Nid o'r data hwn yn unig, ond efallai wrth gyfuno'r data â ffynhonnell arall	Na fydd – bydd i gyd yn ddienw ac ni ellir ei gyfuno â gwybodaeth arall	N/A
4. A fydd **yr holl** ddata a gesglir yn cael ei ddefnyddio?	Na, efallai yn y dyfodol	Bydd ond dyma'r tro cyntaf yr ydym yn ei gasglu a'i ddefnyddio	Bydd ond nid yw wedi cael ei ddefnyddio'n llawn o'r blaen	Bydd, mae'n cael ei ddefnyddio'n llawn yn barod	
5. Faint o ddata sy'n cael ei drin y flwyddyn?	Swm mawr – dros 4,000 o gofnodion	Canolig – rhwng 1,000-3,999 o gofnodion		Llai na 1,000 o gofnodion	
6. Oes gennych chi ganiatâd gan wrthrychau'r data?	Nag oes	Efallai, mae'n cael ei egluro ar ein gwefan (Amdanom Ni)	Oes, yn cael caniatâd pendant, ddim o hyd yn cael ei gofnodi	Oes, yn cael caniatâd pendant a'i gofnodi / neu'n rhan o ddyletswydd statudol / cytundebol	N/A
7. Wyddoch chi am ba hyd fydd y data'n cael ei gadw?	Na – nid yw ar yr atodlen gadw eto	Gwn – mae ar yr atodlen gadw	Gwn – ond nid yw ar yr atodlen gadw	Ar yr atodlen gadw **a hefyd** mae'r gweithwyr perthnasol yn ymwybodol	
8. Ble ac ym mha fformat fyddai'r data'n cael ei gadw? (dylid dileu fel y bo'n briodol)	Papur; adref / oddi ar y safle; system TG newydd neu'r darparwr; Survey Monkey; gliniadur personol	Papur; ystafell archif; storfa swyddfa (dan glo)	Gyriant GOC sy'n cael ei rannu; gyriant personol	System TG arall (mewn defnydd); Porth ar-lein; CRM; Wedi'i sganio ac yn cael ei gadw ar ffolder adran / tîm gyriant: H	
9. Ydy o ar y gofrestr asedau gwybodaeth?	Na	Ddim eto, rwyf wedi ei gyflwyno i'r Perchennog Asedau Gwybodaeth (IAO)	Ydy ond heb gael ei adolygu gan yr IAO	Ydy ac wedi cael ei adolygu gan yr IAO **a hefyd** wedi'i gymeradwyo gan adran o'r llywodraeth	

B) Llywodraethu gwybodaeth	Risg uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu N/A
10. A fydd data'n cael ei rannu neu ei ddatgelu i drydydd parti?	Bydd ond dim cytundebau yn eu lle	Bydd, cytundeb yn ei le	Efallai o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth	Na, defnydd mewnol i gyd	
11. A fydd y data'n cael ei drin gan rywun y tu allan i'r UE?	Bydd	-	-	Na fydd	
12. A fydd data personol neu sy'n adnabod rhywun yn cael ei gyhoeddi?	Bydd - heb ei gymeradwyo gan y tîm Cydymffurfio eto	Bydd - wedi'i gytuno gyda'r tîm Cydymffurfio	Na fydd, bydd data personol ac sy'n adnabod rhywun yn cael ei dduo	Na fydd – ni chyhoeddir unrhyw ddata personol nac sy'n adnabod rhywun	
13. Mae unigolion sy'n trin y data wedi derbyn hyfforddiant priodol	Mae rhai pobl sydd erioed wedi cael eu hyfforddi mewn Llywodraethu Gwybodaeth gan y GOC	I gyd wedi eu hyfforddi mewn Llywodraethu Gwybodaeth ond dros 12 mis yn ôl		Do, i gyd wedi cael eu hyfforddi mewn Llywodraethu Gwybodaeth yn y 12 mis diwethaf	

Rhowch sylwadau isod ar y rhesymau am y sgoriau llywodraethu gwybodaeth:
1-13: Nid ydym yn rhagweld y bydd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn darparu data personol am unigolion, ond gallent ddarparu gwybodaeth am arferion masnachol. Yn unol â'n polisi ymgynghori, byddwn yn duo gwybodaeth a ystyriwn i fod yn annifyr, blinderus, enllibus neu'n cynnwys rhethreg sy'n hyrwyddo ymddygiad neu farn wahaniaethol yn erbyn unrhyw un gyda nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu sy'n amherthnasol (consultation-policy-final-july-2024.pdf). Gall ymatebwyr i'r ymgynghoriad ddarparu eu gwybodaeth bersonol (enw, manylion cyswllt a gwybodaeth EDI) wrth gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad, ond nid yw hyn yn orfodol. Lle y mae gwybodaeth o'r fath yn cael ei chasglu, fe'i defnyddir ond er mwyn dadansoddi ymatebion ac ni fyddwn yn adnabod na'n cyhoeddi enwau unrhyw un wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad. Defnyddiwn ein mesurau llywodraethu presennol ar gyfer data monitro EDI fel rhan o'n dull sicrwydd data ehangach. Mae ein llwyfan ymgynghori'n cynnwys datganiad preifatrwydd sy'n egluro sut y defnyddiwn ddata ein hymatebwyr (Polisi Preifatrwydd | Cyngor Optegol Cyffredinol). Mae'r rhan fwyaf o risgiau'n isel neu ganolig ac wedi eu lliniaru. Nid oes angen asesiad effaith llawn.

C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant	Risg uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu N/A
1. Y brif gynulleidfa / defnyddiwr polisi	Y cyhoedd			Cofrestreion, gweithwyr neu aelodau	
2. Cyfranogi mewn proses (yr hawl i gael eu trin yn deg, hawl rhyddid mynegiant)	Ie, mae'r polisi, proses neu weithgaredd yn cyfyngu ar gynnwys, rhyngweithio neu gyfranogiad unigolyn mewn proses			Na, nid yw'r polisi, proses neu weithgaredd yn cyfyngu ar gynnwys, rhyngweithio neu gyfranogiad unigolyn mewn proses	
3. Mae'r polisi, proses neu weithgaredd yn cynnwys penderfyniadau sy'n rhoi canlyniadau i unigolion (yr hawl i dreial teg, yr hawl i gael eu trin yn deg)	Ydy mae'r penderfyniad yn cael ei wneud gan un person, a allai adolygu pob achos neu beidio	Ydy mae'r penderfyniad yn cael ei wneud gan un person, sy'n adolygu pob achos	Ydy mae'r penderfyniad yn cael ei wneud gan banel sy'n cael ei ddewis ar hap; a allai adolygu pob achos neu beidio	Ydy mae'r penderfyniad yn cael ei wneud gan banel o gynrychiolwyr (wedi'i ddewis yn benodol) NEU Na, nid oes angen penderfyniadau	
	Mae rhai meini prawf penderfynu; gwneir penderfyniadau ar farn bersonol	Mae rhai meini prawf penderfynu; gwneir penderfyniadau fesul achos	Mae meini prawf penderfynu clir ond dim ffurflen i gofnodi'r penderfyniad	Mae meini prawf penderfynu clir a ffurflen i gofnodi'r penderfyniad	
	Nid oes proses adolygu fewnol neu apelio annibynnol	Gellir apelio'n annibynnol ond nid oes proses adolygu fewnol	Mae proses adolygu fewnol ond ni ellir apelio'n annibynnol	Mae proses glir ar gyfer apelio neu wneud cwyn i gael y canlyniad wedi'i adolygu'n fewnol a'i adolygu'n annibynnol	
	Nid yw'r rhai sy'n penderfynu pethau wedi derbyn hyfforddiant EDI a rhagfarn ddiarwybod, ac nid oes cynlluniau i wneud hyn yn y 3 mis nesaf	Bydd y rhai sy'n penderfynu pethau'n derbyn hyfforddiant EDI a rhagfarn ddiarwybod yn y 3 mis nesaf, sydd wedi'i archebu	Nid yw'r rhai sy'n penderfynu pethau'n cyfrannu cyn derbyn hyfforddiant EDI a rhagfarn ddiarwybod	Mae'r rhai sy'n penderfynu pethau wedi derbyn hyfforddiant EDI a rhagfarn ddiarwybod yn y 12 mis diwethaf, sy'n cael ei gofnodi	

C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant	Risg uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu N/A
4. Hyfforddiant i bawb perthnasol	Mae llai na 50% o'r bobl berthnasol wedi derbyn hyfforddiant EDI yn y 12 mis diwethaf; ac nid oes hyfforddiant pellach wedi'i drefnu	Mae dros 50% o'r bobl berthnasol wedi derbyn hyfforddiant EDI ac mae'r hyfforddiant wedi'i archebu ar gyfer pawb arall perthnasol yn y 3 mis nesaf		Mae dros 80% o'r bobl berthnasol wedi derbyn hyfforddiant EDI yn y 12 mis diwethaf, sy'n cael ei gofnodi	
5. Ffurflenni eraill – electronig / ysgrifenedig ar gael?	Dim fformatau eraill ar gael – dim ond un opsiwn	Oes, ffurflenni ar y we / cyfrifiadurol yn bennaf ond gellir defnyddio fersiynau papur		Fformatau eraill ar gael a gall defnyddwyr drafod a'u cwblhau gyda'r tîm	
6. Lleoliad sy'n cynnal y weithgaredd	Hygyrchedd yr adeilad heb ei ystyried	Hygyrchedd yr adeilad weithiau'n cael ei ystyried		Hygyrchedd yr adeilad o hyd yn cael ei ystyried	N/A
	Adeilad anhygyrch;	Adeiladau sy'n rhannol hygyrch;	Adeiladau hygyrch ond nid yw pob safle wedi cael ei arolygu	Pob adeilad a safle hygyrch wedi cael eu harolygu	N/A
7. Mynychu	Rhybudd byr o ddyddiadau / lle i fynychu	Rhybudd canolig (5-14 diwrnod) o ddyddiadau / llefydd i fynychu		Wedi'i gynllunio ymhell ymlaen llaw	
	Trefniadau'n cael eu newid yn aml	Trefniadau'n cael eu newid yn eithaf aml		Pur anaml y mae'r trefniadau'n cael eu newid	
	Dim ond yn gallu mynychu wyneb yn wyneb	Angen mynychu wyneb yn wyneb gan amlaf		Yn gallu mynychu o bell	
	Lefel anghyfartal o fynychu / cyfranogiad	Lefel anghyfartal o fynychu / cyfranogiad ond yn cael ei fonitro a'i reoli		Mynychu / cyfranogiad yn gyfartal ac yn cael ei fonitro am bob un sy'n mynychu	
	Dim gwyliau crefyddol yn cael eu hystyried; dim ond gwyliau Cristnogol	Y prif wyliau crefyddol yn y DU yn cael eu hystyried	Y prif wyliau crefyddol yn y DU yn cael eu hystyried ac y gofyn am gyngor gan unigolion perthnasol os nad oes dyddiadau eraill	Gwyliau crefyddol yn cael eu hystyried ac yn gallu bod yn hyblyg (ar ddyddiadau, neu ddisgwyliadau hyblyg os nad oes dyddiadau eraill)	

C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant	Risg uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu N/A
8. Costau cysylltiedig	Costau posib ddim yn cael eu cynnwys yn ein polisi costau / treuliau	Gall rhai pobl, sy'n dangos tystiolaeth o angen, yn gallu hawlio costau a threuliau posib, penderfynu fesul achos		Gall y rhan fwyaf o ddefnyddwyr hawlio costau / treuliau posib ac mae hyn yn cael ei gynnwys yn ein polisi costau / treuliau; rhadbost ar gael	N/A
9. Teg i anghenion yr unigolyn	Cyswllt ddim wedi'i restru i drafod addasiadau rhesymol, gweithwyr ddim yn ymwybodol o gynghorwyr addasiadau rhesymol	Mae'r rhan fwyaf o weithwyr yn gwybod gyda phwy i gysylltu i holi am addasiadau rhesymol		Cyswllt wedi'i restru i drafod addasiadau rhesymol	N/A
10. Ymgynghori a chynhwysiant	Dim ymgynghori; ymgynghori â gweithwyr mewnol yn unig	Ymgynghori â gweithwyr ac aelodau	Ymgynghori â gweithwyr ac aelodau a grwpiau ehangach	Ymgynghori â defnyddwyr polisi, gweithwyr ac aelodau a grwpiau ehangach	

Rhowch sylwadau isod ar y sgoriau hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant uchod:
3: Bydd penderfyniadau ar y system CPD yn cael eu gwneud gan ein Cyngor ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd; fydd yn effeithio ar unigolion a pherchnogion busnes. Ni ellir apelio yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor, heblaw drwy adolygiad barnwrol. Yn ystod y cam gweithredu, bydd cyfranogiad a chanlyniadau i grwpiau a warchodir yn cael eu monitro drwy'r system bwyntiau (diwygiadau tymor byr) a'r system archwilio (rhai hirdymor) er mwyn adnabod a rhoi sylw i unrhyw anghysondeb. 5: Roedd yr ymgynghoriad ar gael i bawb ar ein gwefan. Mae dogfennau ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais, ac mae ein gwefan yn cwrdd â chanllawiau hygyrchedd. Bydd unrhyw benderfyniad am y system CPD a drafodir yn yr ymgynghoriad yn cael ei wneud mewn cyfarfod cyhoeddus o'r Cyngor sy'n digwydd ar-lein ac yn agored i bawb. Cyhoeddwn bapurau'r Cyngor wythnos cyn cyfarfodydd. Gall y tîm gweithredol benderfynu materion gweithredol yn ymwneud â'r cam gweithredu fel rhan o gynlluniau dirprwyo. 6-9: Cynhelir cyfarfodydd o'r Cyngor ar-lein. Fel gyda'r uchod, gwneir penderfyniadau perthnasol mewn cyfarfod cyhoeddus o'r Cyhoedd, sy'n agored i'r cyhoedd. Cyhoeddir papurau'r cyfarfod wythnos ymlaen llaw ac ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais.

Nid oes angen asesiad effaith llawn.

Nodwedd a warchodir	Math o effaith bosib: cadarnhaol, niwtral, negyddol?	Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd) a chamau i gywiro'r effaith negyddol
Oed	Cadarnhaol	O dan y model presennol, rhaid i gofrestreion gwrdd â'r un gofynion pwyntiau beth bynnag yw eu hoed, a allai fod yn anghymesur i weithwyr proffesiynol profiadol Gallai'r ffaith bod angen ennill pwyntiau CPD p'un ai oes bwriad i ymddeol neu beidio fod o anfantais i weithwyr hŷn. Felly mae'n bosib y byddai gweithwyr proffesiynol hŷn yn elwa o system CPD sy'n rhagnodi llai o ofynion. Yn ôl yr adborth o'r ymgynghoriad, byddai disgwyl yn rhesymol i fwy o hyblygrwydd fod o fantais i gofrestreion yn gweithio y tu allan i'r patrwm gofal llygad stryd fawr traddodiadol. Roedd enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys ymarferwyr hŷn.
Anabledd	Cadarnhaol	Gallai cofrestreion anabl ei chael yn anoddach mynychu digwyddiadau fel cynadleddau sy'n rhoi nifer uchel o bwyntiau, felly gallai cyrraedd y cyfanswm pwyntiau gofynnol fod yn anoddach. Gall y ffaith bod angen casglu digon o bwyntiau erbyn terfyn amser penodol i aros ar y gofrestr achosi gorbryder tuag at ddiwedd y cylch, yn enwedig i gofrestreion niwro-amrywiol. Gallai system CPD sy'n rhagnodi llai o ofynion fod o fantais i gofrestreion ag anabledd felly. Roedd peth o adborth yr ymgynghoriad yn cadarnhau'r manteision hyn. Ar y llaw arall, roedd peth o'r adborth hefyd wedi tynnu sylw y gallai system CPD lai strwythuredig achosi trafferthion i gofrestreion niwro-amrywiol. Ein hymateb yw y disgwyliwn i'r rhan fwyaf o gofrestreion barhau i ddefnyddio CPD darparwr drwy gyflogwyr a digwyddiadau, gyda CPD hunangyfeiriedig yn dod yn fwy dylanwadol dros amser. Byddai'r system newydd yn rhoi mwy o ddewis fel y gallai cofrestreion barhau gyda dull tra-strwythuredig os oedd hynny'n gweithio orau iddynt. Gall canllawiau gan y GOC ac eraill gefnogi cofrestreion drwy awgrymu normau, nodi ymarfer da a darparu adnoddau ymarferol fel templedi. Un o'r gofynion sylfaenol ar gyfer canllawiau'r GOC fydd egluro beth fydd y

Nodwedd a warchodir	Math o effaith bosib: cadarnhaol, niwtral, negyddol?	Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd) a chamau i gywiro'r effaith negyddol
		GOC yn chwilio amdano wrth adolygu cofnodion CPD a pha amgylchiadau allai arwain at dynnu enw o'r gofrestr.
Rhyw	Niwtral	Nid oes gennym dystiolaeth fod y system CPD bresennol yn creu effeithiau gwahanol ar ddynion neu ferched. Fodd bynnag, byddwn yn monitro cyfranogiad a chanlyniadau drwy'r cam gweithredu i adnabod unrhyw anghysondeb.
Ailbennu rhywedd (trans ac anneuaidd)	Niwtral	Dim effeithiau penodol wedi eu hadnabod yn y cam hwn. Nid oes gennym dystiolaeth i ddangos rhwystrau'n gysylltiedig â'r model pwyntiau CPD. Byddwn yn sicrhau bod yr ymgynghoriad a'r deunyddiau ategol yn gynhwysol a bod unrhyw newid i'r system (e.e. diweddaru'r system CPD) yn cefnogi newid enw a chywiro gwybodaeth hunaniaeth.
Priodas a phartneriaeth sifil	Niwtral	Nid oes gennym dystiolaeth fod y gofynion CPD presennol yn effeithio'n anghymesur ar gofrestreion yn y grŵp hwn. Ni ddisgwylir unrhyw effaith wahaniaethol o dan y diwygiadau arfaethedig.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Cadarnhaol	Nid yw ein hymchwil yn nodi bod cofrestreion yn y categori hwn yn ystyried bod y system bresennol yn rhy feichus. Er hynny mae'n rhesymol casglu y byddai system sy'n rhagnodi llai o ofynion o fudd i gofrestreion sy'n cael trafferth cwrdd â'r gofynion pwyntiau oherwydd bod eu hamser yn brin. Un o fanteision y cylch tair blynedd presennol, a gefnogir gan ein hystyriaeth o amgylchiadau eithriadol, yw ei fod yn cefnogi 'seibiant CPD' oherwydd beichiogrwydd, cyfrifoldebau gofalu a digwyddiadau bywyd eraill. Mae hyn oherwydd y gellir gwasgaru'r cyfanswm pwyntiau dros gwrs pob cylch. Os gweithredir ein cynigion, daw'r cysyniad o gylch CPD tair blynedd i ben. Bydd ein canllawiau ar adolygu cofnodion CPD yn egluro sut y byddwn yn trin sefyllfaoedd o'r fath.
Hil	Niwtral	Nid oes gennym dystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos effaith wahaniaethol yn ôl tarddiad ethnig. Gall mynediad at ddigwyddiadau CPD amrywio gan ddibynnu ar leoliad cyflogaeth,

Nodwedd a warchodir	Math o effaith bosib: cadarnhaol, niwtral, negyddol?	Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd) a chamau i gywiro'r effaith negyddol
		ond nid yw hyn o reidrwydd wedi'i gysylltu i hil. Byddwn yn parhau i fonitro data cyfranogiad i adnabod unrhyw batrwm.
Crefydd / cred	Niwtral	Dim effeithiau penodol wedi eu hadnabod. Nid yw cylchoedd CPD yn gofyn mynychu digwyddiadau ar ddyddiadau penodol, a gallai system sy'n dibynnu llai ar ddigwyddiadau leihau'r risg o wrthdaro â gwyliau crefyddol.
Tueddiad rhywiol	Niwtral	Nid oes gennym dystiolaeth fod y model CPD presennol yn effeithio'n wahanol ar gofrestreion ar sail tueddiad rhywiol, ac ni ddisgwylir i'r diwygiadau arfaethedig greu unrhyw rwystrau newydd.
Grwpiau eraill (e.e. gofalwyr, pobl o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol)	Cadarnhaol	Mae ein hymchwil yn awgrymu bod is-grwpiau'n fwy tebygol o feddwl bod nifer y pwyntiau sy'n ofynnol o dan y system bresennol yn rhy uchel, gan gynnwys optegwyr cyflenwi, gweithwyr llawn amser a gweithwyr locwm. Gallai rhai gyda chyfrifoldebau gofalu ei chael yn anoddach mynychu digwyddiadau fel cynadleddau sy'n rhoi nifer uchel o bwyntiau, felly gallai cyrraedd y cyfanswm pwyntiau gofynnol fod yn anoddach. Bydd cyfranogiad a chanlyniadau i'r holl grwpiau a warchodir yn cael eu monitro drwy'r system bwyntiau (diwygiadau tymor byr) a'r system archwilio (rhai hirdymor) er mwyn adnabod a rhoi sylw i unrhyw anghysondeb. Roedd adborth yr ymgynghoriad yn nodi anfanteision posib pe bai'r system yn dod yn llai strwythuredig a mwy dibynnol ar ddysgu hunangyfeiriedig. Roedd y grwpiau risg yn cynnwys: gweithwyr locwm, unig ymarferwyr, gweithwyr portffolio, rhai ar absenoldeb mamolaeth neu seibiant gyrfa, gweithwyr rhan amser, anabl neu niwro-amrywiol (fel awtistiaeth, ADHD, dyslecsia). Fodd bynnag, dywedodd eraill y dylid disgwyl yn rhesymol i fwy o hyblygrwydd fod o fantais i gofrestreion yn gweithio y tu allan i'r patrwm gofal llygad stryd fawr traddodiadol. Er enghraifft ymarferwyr hŷn, gweithwyr rhan amser neu rai gyda chyfrifoldebau gofalu. Hefyd, dylai mwy o bwyslais ar CPD hunangyfeiriedig fod o fantais i gofrestreion llai cefnog, gan gynnwys rhai na fyddai'n gymwys am grantiau gan y GIG neu

Nodwedd a warchodir	Math o effaith bosib: cadarnhaol, niwtral, negyddol?	Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd) a chamau i gywiro'r effaith negyddol
		ddim yn gweithio i gyflogwyr mawr gyda mynediad parod at weithgareddau CPD digost i gofrestreion. Fel y noda'r adran uchod ar anabledd yn glir, byddai'r system newydd yn rhoi mwy o ddewis fel y gallai cofrestreion barhau gyda dull tra-strwythuredig os oedd hynny'n gweithio orau iddynt. Bydd canllawiau gan y GOC yn rhoi eglurder ar ein disgwyliadau sylfaenol, yn ogystal â deunyddiau fel templedi, gan gefnogi rhai sy'n well ganddynt fwy o strwythur. Roedd adborth yr ymgynghoriad yn nodi pryderon am effeithiau cynigion penodol y dylai cofrestreion busnes chwarae mwy o rôl mewn cefnogi CPD. Fodd bynnag, rydym wedi camu'n ôl o'r cynigion hyn yn dilyn adborth gan randdeiliaid.